PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# 2023/24
# Datganiad ar Ganlyniadau Gradd

Mae'r datganiad hwn yn rhoi dadansoddiad a throsolwg o'r tueddiadau mewn proffiliau dosbarthiad graddau israddedig ar gyfer PA yn unol â'r canllawiau a ddarperir gan Bwyllgor Sefydlog Asesu Ansawdd y DU (UKSCQA): Guidance for Degree-Awarding Bodies on Producing Degree Outcomes Statements

## Proffil dosbarthiad graddau'r sefydliad

| Canran y Myfyrwyr fesul Dosbarthiad Gradd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dosbarth | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
| 1 | 23% | 27% | 23% | 24% | 23% |
| II(1) | 53% | 50% | 47% | 48% | 48% |
| II(2) | 21% | 21% | 26% | 23% | 25% |
| III/PASS | 4% | 3% | 4% | 3% | 4% |

Mae cyfran y graddau anrhydedd dosbarth cyntaf a ddyfarnwyd dros y 5 mlynedd diwethaf wedi aros yn gymharol sefydlog (gan ystyried effaith y polisïau dim-anfantais a weithredwyd yn ystod 2019/20 a 2020/21) Mae cyfran y graddau ail ddosbarth uwch II(1) a ddyfarnwyd wedi gostwng ychydig tra bod cyfran yr ail ddosbarth is II(2) wedi cynyddu dros yr un cyfnod.

| Canran y Dosbarthiadau Gradd fesul Pwnc | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Dosbarth | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
| STEM | 1 | 24% | 30% | 26% | 28% | 25% |
| | II(1) | 47% | 45% | 43% | 43% | 45% |
| | II(2) | 23% | 21% | 27% | 25% | 27% |
| | III/PASS | 6% | 4% | 5% | 4% | 4% |
| Nid-STEM | 1 | 22% | 24% | 20% | 20% | 21% |
| | II(1) | 57% | 54% | 52% | 57% | 55% |
| | II(2) | 19% | 20% | 25% | 20% | 23% |
| | III/PASS | * | * | * | * | * |

Mae'r cyfrannau hyn yn adlewyrchu'r darlun cenedlaethol diweddaraf sydd ar gael sef cyfran uwch o raddau anrhydedd dosbarth cyntaf yn cael eu dyfarnu mewn pynciau STEM. I'r gwrthwyneb, mae cyfran uwch o raddau ail ddosbarth uwch yn cael eu dyfarnu i fyfyrwyr sy'n astudio pynciau y tu allan i STEM.

https://www.hesa.ac.uk/data-and-analysis/students/outcomes/breakdown

| Canran y Dosbarthiadau Gradd fesul Rhyw | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhyw | Dosbarth | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
| Benyw | 1 | 26% | 28% | 27% | 28% | 27% |
| | II(1) | 55% | 51% | 48% | 49% | 50% |
| | II(2) | 18% | 19% | 22% | 21% | 21% |
| | III/PASS | * | * | * | * | * |
| Gwryw | 1 | 19% | 25% | 18% | 21% | 19% |
| | II(1) | 50% | 48% | 47% | 46% | 45% |
| | II(2) | 25% | 23% | 31% | 26% | 31% |
| | III/PASS | 6% | 4% | 5% | 6% | 6% |

Fel y gwelwyd yn y blynyddoedd blaenorol, mae myfyrwyr benywaidd yn parhau i dderbyn cyfran uwch o raddau anrhydedd da (1 a II(1)) na myfyrwyr gwrywaidd. Er bod y duedd hon yn unol â'r darlun ledled Cymru a Lloegr, mae'r gwahaniaeth rhwng canlyniadau dynion a menywod PA yn fwy na'r hyn a welir ar lefel genedlaethol.

| Canran y Dosbarthiadau Gradd fesul Anabledd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
| Gwyddys Bod Anabledd | 1 | 24% | 28% | 24% | 26% | 23% |
| | II(1) | 52% | 48% | 52% | 47% | 46% |
| | II(2) | 19% | 22% | 21% | 24% | 28% |
| | III/PASS | * | * | * | * | * |
| Dim anabledd Hysbys/ Anhysbys | 1 | 22% | 27% | 23% | 24% | 23% |
| | II(1) | 53% | 50% | 47% | 49% | 49% |
| | II(2) | 22% | 20% | 27% | 22% | 24% |
| | III/PASS | 4% | 3% | 4% | 3% | 4% |

Yn 2023/24 gwyddom fod anabledd gan 24% o raddedigion. Mae cyfran y myfyrwyr sy'n cael gradd anrhydedd dosbarth cyntaf yn 2023/24 yn gyson p'un ai yw hi'n hysbys bod gan y myfyriwr anabledd ai peidio. Mae cyfran y graddau ail ddosbarth uwch a ddyfarnwyd ychydig yn uwch ymhlith myfyrwyr na wyddys bod ganddynt anabledd.

| Canran y dosbarthiadau Gradd fesul Oedran yn Graddio | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Oed | Dosbarth | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
| O dan 25 | 1 | 23% | 22% | 23% | 24% | 22% |
| | II(1) | 53% | 50% | 49% | 49% | 48% |
| | II(2) | 20% | 20% | 25% | 23% | 26% |
| | III/PASS | 3% | 3% | 3% | 3% | 4% |
| 25 a hŷn | 1 | 19% | 20% | 27% | 33% | 26% |
| | II(1) | 48% | 44% | 35% | 39% | 47% |
| | II(2) | 26% | 28% | 30% | 18% | 19% |
| | III/PASS | * | * | * | * | * |

Roedd 9% o'r graddedigion yn 2023/24 dros 25 oed. Mae'r canran o ddyfarniadau dosbarth cyntaf yn tueddi i fod yn uwch ymysg graddedigion hŷn na graddedigion iau. Cafodd y tuedd hwn ei wrthdroi am gyfnod byr yn ystod y pandemig.

** Yn dynodi bod y data wedi'i atal yn unol â strategaeth talgrynnu'r Asiantaeth Ystadegau Uwch i leihau'r risg o adnabod unigolion o'r ffigurau a gyhoeddwyd*

Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hadolygu'n flynyddol yn y Pwyllgor Ansawdd a Safonau. Lle bo angen, cynhelir adolygiadau mewnol i gael gwell dealltwriaeth o'r tueddiadau ac unrhyw newidiadau annisgwyl.

## Arferion asesu a marcio

1. Ceir sicrwydd ynghylch yr arferion asesu a marcio trwy'r ymwneud ag arholwyr ac aseswyr allanol, o'r adeg pan fo rhaglenni'n cael eu datblygu hyd at y cyfnodau cyflawni, asesu a monitro blynyddol tra bod prosesau adolygu cylchol yn cynnig golwg mwy hirdymor ar berfformiad a chyflawniad carfanau myfyrwyr fesul pwnc. Mae byrddau arholi yn cael eu rheoli'n ganolog ac mae mesurau gwirio trwyadl ar waith er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn cadw at ei rheoliadau a'i chonfensiynau. Mae adroddiadau blynyddol gan arholwyr allanol yn cadarnhau bod y safonau yn cyd-fynd â'r safonau mewn mannau eraill ac â'r safonau trothwy yn y DU. Mae'r arholwyr allanol academaidd israddedig ar lefel pynciau yn cael eu rheoli gan dîm canolog o dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Ansawdd a Safonau, a ddisodlodd y Bwrdd Academaidd o ganlyniad i adolygiad o is-bwyllgorau academaidd y Senedd a gynhaliwyd yn ystod haf 2024. Mae bwrdd dyfarnu graddau terfynol y Senedd yn cynnwys craffu allanol ar brosesau PA gan uwch weinyddwr o brifysgol arall yn y DU.
2. Mae arholwyr allanol yn rhan allweddol o'r broses sicrwydd. Mae'r rhai a benodir yn academyddion a chanddynt brofiad ym maes asesu, cynllunio'r cwricwlwm, a chyfoethogi profiad myfyrwyr. Mae'r meini prawf ar gyfer eu penodi, a'u swyddogaeth, yn cael eu hamlinellu yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, a darperir briffio ar-lein ar gyfer yr holl arholwyr allanol newydd. Rhoddir crynodeb a throsolwg o adroddiadau arholwyr

allanol yn y datganiad sicrhau ansawdd blynyddol sy'n cael ei adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd a'r Cyngor, y corff llywodraethu. Mae staff Aberystwyth hefyd yn gweithredu fel arholwyr allanol ac aelodau o baneli mewn sefydliadau eraill, ac yn ymwneud â datblygu staff, gan gynnwys gweithio fel Cymrodyr ac Uwch Gymrodyr AU Ymlaen, a hynny oll yn cyfrannu at ymwybyddiaeth eang o bwyntiau cyfeirio allanol a meincnodau pwnc.

3. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn amlinellu'r prosesau ac yn rhoi arweiniad o ran gweithdrefnau asesu, marcio a safoni, a sut i ymdrin ag amgylchiadau arbennig ac apeliadau. Mae byrddau yn dadansoddi canlyniadau fel rhan o broses y bwrdd arholi. Mae pob darn o waith, gan gynnwys arholiadau, yn cael ei farcio ar sail meini prawf a amlinellir i'r myfyrwyr ar ddechrau pob modiwl. Mae adroddiadau blynyddol ar brosesau arholi a lefel a mathau yr apeliadau academaidd yn dangos tryloywder ac atebolrwydd o ran y prosesau hyn ac yn rhoi sicrwydd bod y prosesau marcio a chymedroli yn effeithiol. Y Cyfadrannau sy'n ymdrin ag amgylchiadau arbennig, ac mae'r argymhellion yn cael eu hadolygu'n ganolog ac achosion anodd yn cael eu cyfeirio at banel canolog amgylchiadau arbennig y Senedd.

## Llywodraethu academaidd

4. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau a'r Pwyllgorau Addysg a Phrofiad Myfyrwyr wedi disodli'r Bwrdd Academaidd ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd, sy'n gyfrifol am safonau academaidd, sicrhau ansawdd a gwella'r holl ddarpariaeth. Mae trefniadau partneriaeth yn cael eu goruchwylio gan y Pwyllgor Darpariaeth Gydweithredol, sydd hefyd yn adrodd i'r Senedd. Y mae'r holl fyrddau adrannol yn adrodd i Fwrdd Arholi'r Senedd, sef y corff dyfarnu graddau. Mae’r Pwyllgor Ansawdd a Safonau a'r Senedd yn cael cyfle i gyfrannu at y Datganiad hwn ar Ganlyniadau Graddau, ac i wneud sylwadau arno ac mae’r datganiad Sicrhau Ansawdd blynyddol yn rhoi arolygaeth i'r corff llywodraethu o ran sicrhau ansawdd, gan gynnwys gweithgareddau partneriaeth.

## Algorithmau dosbarthiad graddau

5. Confensiynau Arholiadau PA sy’n pennu a yw myfyrwyr yn cael symud ymlaen o'r naill flwyddyn astudio i'r nesaf a'r algorithm i gyfrifo dosbarth y radd a ddyfernir. Mae rheoliadau a gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/. Pennir y drefn ddosbarthu graddau anrhydedd ar sail set gyffredin o gonfensiynau. Mae'r drefn 'rhaeadru' yn seiliedig ar gyfartaledd wedi'i bwysoli o’r holl fodiwlau a astudiwyd yn rhan dau ac sy'n cyfrannu at y radd derfynol. Mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr wneud iawn am berfformiad gwael blaenorol; yn canolbwyntio ar berfformiad da ac yn ei wobrwyo, heb roi cosbau gormodol am fethiant; mae'n gallu ymdopi â gwahanol gyfuniadau posibl o lefelau a modiwlau a chanddynt bwysoliad gwahanol o ran credydau, gan roi pwysoliad is i fodiwlau ar lefel is. Nid yw'r algorithm wedi cael ei newid ers ei gyflwyno yn y 1990au, heblaw am y pwysoli a roddir i flwyddyn yn astudio dramor. Fel arfer bydd myfyrwyr yn cael eu hasesu'n syth wedi iddynt gwblhau'r dysgu, a chaniateir dau gyfle iddynt ailsefyll am farc wedi'i gapio (40% ar gyfer lefel 4, 5 a 6 y Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch a 50% ar gyfer lefel 7), ac eithrio nifer fach o raglenni sydd wedi’u hachredu’n broffesiynol sydd â gofynion penodol; ni chaniateir ailasesu ar gyfer unrhyw fodiwlau a basiwyd.

## Arferion addysgu ac adnoddau dysgu

6. Mae'r Brifysgol yn parhau i fuddsoddi mewn gwelliannau o ran adnoddau dysgu ac yn cefnogi arloesi mewn arferion addysgu. Mae Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu penodol yn cefnogi'r staff academaidd. Mae polisi'r Brifysgol yn cefnogi recordio gorfodol o bob darlith; cyflwyno gwaith cwrs yn electronig os yw’n destun a baratowyd ar raglen prosesu-geiriau ynghyd â marcio ac adborth ar-lein; egwyddorion adborth effeithiol gan gynnwys canllawiau ar gyfer adborth ar arholiadau; isafswm presenoldeb gofynnol ar yr amgylchedd dysgu rhithiol; polisi presenoldeb ynghyd â monitro presenoldeb; rhestrau darllen gorfodol ar gyfer pob modiwl; Cymorth gan Gymheiriaid wrth Addysgu gydag offer ar gyfer trefnu sesiynau a’u cofnodi ar ôl eu cwblhau; Arolwg ar Brofiad Myfyrwyr (ABM) ledled y sefydliad. Mae'r brifysgol yn defnyddio dadansoddeg dysgu a dangosfwrdd ymroddiad a ddefnyddir gan diwtoriaid personol gan gynnwys ymyriadau rhagweithiol â myfyrwyr sy’n isel o ran eu hymroddiad, a meddalwedd pleidleisio yn y dosbarth i annog dysgu gweithredol. Mae

hygyrchedd yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir wedi'i wella trwy gyflwyno Blackboard Ally, gan symud i Blackboard Ultra sydd â rhyngwyneb mwy hygyrch ac addas ar gyfer dyfeisiau symudol i staff a myfyrwyr.  Mae offer Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol newydd yn yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir wedi'u cyflwyno i helpu staff a chefnogi ffyrdd newydd o ddysgu (gan gynnwys gweithgareddau chwarae rhan ar-lein).  Mae'r brifysgol wedi buddsoddi mewn gwelliannau i'r llyfrgell, gan sicrhau ystod o wahanol fathau o fannau astudio i ddiwallu anghenion ein myfyrwyr.  Mae ein Tîm Cysylltiadau Academaidd yn rhoi cymorth helaeth i fyfyrwyr a staff er mwyn iddynt ddefnyddio ein hadnoddau llyfrgell i'r eithaf, a hefyd i ddarparu sgiliau llythrennedd gwybodaeth a sgiliau digidol i fyfyrwyr a staff sy'n hanfodol i'n holl ddefnyddwyr.  Mae ymarfer addysgu effeithiol yn cael ei rannu yn flynyddol yn y gynhadledd Dysgu ac Addysgu, trwy Wobr Cwrs Eithriadol, Cynadleddau Bach, a'r rhaglen DPP.

## Nodi arfer da, a chamau gweithredu

7. Mae gweithredu un algorithm graddau ledled y Brifysgol yn arfer da, ac mae prosesau a reolir yn ganolog yn helpu i sicrhau bod y rheolau'n cael eu rhoi ar waith yn gyson ledled yr holl adrannau academaidd.   Er mwyn gwella rhagor ar y cysondeb, bydd y gwaith o adolygu gweithdrefnau yn parhau er mwyn canfod ymhle y gellir awtomeiddio rhagor o weithgareddau gweithredol.

## Risgiau a heriau

8. Er ein bod yn hyderus nad oes unrhyw risgiau sylweddol wedi'u nodi, byddwn yn cadw golwg agos ar y data. Y datganiad ar sicrhau ansawdd, a gyflwynir yn flynyddol i'r Corff Llywodraethu, yw'r dull a ddefnyddir i adrodd ynghylch prosesau sicrwydd ansawdd, gan dynnu sylw at weithgarwch y flwyddyn flaenorol.  Mae system goleuadau traffig yn dangos lefel y pryder o ran y materion allweddol a nodwyd o fewn y crynodeb gweithredol yn yr adroddiad.

*Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Chwefror 2025, Senedd Mawrth 2025*